Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

**DYDD MERCHER, 18 IONAWR 2023**

**AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD AMLLEOLIAD Y **CYNGOR SIR** A GYNHELIR YN **Y SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN, AC O BELL AM 10.00 YB, DYDD MERCHER, 25AIN IONAWR, 2023** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Wendy Walters*

**PRIF WEITHREDWR**

**GELLIR GWYLIO'R CYFARFOD AR WEFAN Y CYNGOR DRWY'R DDOLEN CANLYNOL:-**
**HTTPS://CARMARTHENSHIRE.PUBLIC-I.TV/CORE/PORTAL/HOME**

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Martin S. Davies** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224059** |
| **E-bost:** | **MSDavies@sirgar.gov.uk** |


Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

# A G E N D A


| | | |
|---|---|---|
| 1. | **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB** | |
| 2. | **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.** | |
| 3. | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.** | |
| 4. | **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 7FED RHAGFYR 2022.** | 5 - 12 |
| 5. | **YSTYRIED ARGYMHELLION Y CABINET O RAN A MATERION CYNLYNOL:-** | |
| 5 .1 | **ADRODDIAD CHWARTEROL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDD DARBODAETH EBRILL 1AF 2022 I MEDI 30AIN 2022** | 13 - 30 |
| 5 .2 | **CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR** | 31 - 44 |
| 5 .3 | **CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI A PHENNU RHENTI TAI AR GYFER 2023/24** | 45 - 70 |
| 5 .4 | **CYNLLUN BUSNES 2023-26 Y CYFRIF REFENIW TAI RHAGLEN BUDDSODDIADAU TAI SIR GAERFYRDDIN** | 71 - 146 |
| 5 .5 | **ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR SIR CAERFYRDDIN AR GYFER 2021/22** | 147 - 382 |
| 6. | **DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:** | |
| 6 .1 | **28AIN TACHWEDD 2022** | 383 - 386 |
| 6 .2 | **12FED RHAGFYR 2022** | 387 - 390 |
| 6 .3 | **9FED IONAWR 2023** | 391 - 404 |
| 7. | **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).** | |
| 8. | **CYFLWYNO DEISEBAU** | |


__Nodyn:__ Er mwyn cael eu hystyried mewn cyfarfod ffurfiol rhaid i bob deiseb gynnwys 50 o lofnodion etholwyr cofrestredig ar gyfer copïau papur a 300 o lofnodion etholwyr cofrestredig ar gyfer e-ddeisebau. Mae cyfanswm Llofnodion Etholiadol Sir Gaerfyrddin hyd at y trothwy o 50 wedi'u dilysu. Nid ydym wedi gwirio'r llofnodion wedi hynny.

**8 .1 DEISEB I GYNGOR SIR CAERFYRDDIN STOPIO BANCIO GYDA BARCLAYS**

'Rydym yn galw ar Gyngor Sir Caerfyrddin i:

- Dynnu ei fusnes o fanc Barclays cyn gynted â phosibl a throsglwyddo i fanc moesegol (neu os nad oes banc moesegol sy'n gallu delio â'u hanghenion corfforaethol, symud i'r banc lleiaf gwael yn y sector);

- Rhoi pwysau ar fanc Barclays i newid ei bolisïau buddsoddiadau i'r rhai sy'n blaenoriaethu anghenion yr hinsawdd a chenedlaethau'r dyfodol.'

### 8 .2 DEISEB I GYNGOR SIR CAERFYRDDIN YNGHYLCH DIRYWIAD HARBWR PORTH TYWYN

'Rydym ni, etholwyr Sir Gaerfyrddin sydd wedi llofnodi isod yn cyflwyno'r ddeiseb i Gyngor Sir Caerfyrddin:

- Cydnabod bod cyflwr harbwr a marina Porth Tywyn wedi dirywio'n raddol i'r hyn sydd yn ei hanfod yn gyflwr anymarferol er gwaethaf y brydles tymor hir i weithredwr marina preifat, ac rydym yn cofrestru ein hanfodlonrwydd a'n pryder mawr.
- Sicrhau, fel Landlord ac Awdurdod Statudol yr Harbwr, bod holl delerau'r brydles honno'n cael eu gorfodi'n llawn heb oedi pellach.
- Archwilio'r eiddo a chyhoeddi hysbysiadau o unrhyw doriadau o'r telerau hyn o fewn y mis nesaf, ac os yw'r lesddeiliad yn methu â chymryd camau priodol ac effeithiol, dilyn eich hawliau o dan y brydles.
- Nodi nad oes gennym ffydd na hyder y bydd y dull Carthu drwy Chwistrellu Dŵr yn clirio'r tywod trwm sydd angen ei waredu o'r harbwr, sy'n ffurfio'r rhan helaeth o'r gwaddodion sydd wedi cronni, ac nid ydym o'r farn bod hyn yn weithred briodol nac effeithiol.
- Rydym am weld yr harbwr a'r marina yn dychwelyd i'r cyflwr gorau posibl, i fod yn gyfleuster diogel, gweithrediadol, deniadol sydd o fudd gwirioneddol i ddefnyddwyr yr harbwr a'n cymuned gyfan.'

## 9. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

## 10. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)

### 10 .1 PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFED - 23AIN TACHWED 2022

### 10 .2 PWYLLGOR CRAFFU LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID YR HINSAWDD - 24AIN TACHWEDD 2022

### 10 .3 PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG - 1AF RHAGFYR 2022

### 10 .4 PWYLLGOR CYNLLUNIO - 8FED RHAGFYR, 2022

### 10 .5 PWYLLGOR TRWYDDEDU - 9FED RHAGFYR, 2022

### 10 .6 PWYLLGOR SAFONAU - 12FED RHAGFYR 2022

### 10 .7 PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL - 13EG RHAGFYR 2022

**10 .8 PWYLLGOR CRAFFU LLE, CYNALIADWYEDD A NEWID YR HINSAWDD - 15FED RHAGFYR 2022**

**10 .9 PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - 16EG RHAGFYR, 2022**

**10 .10 PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, CARTREFI AC ADFYWIO - 19EG RHAGFYR 2022**

**11. NI DDYLID CYHOEDDI'R ADRODDIAD SY'N YMWNEUD Â'R MATER CANLYNOL GAN EI FOD YN CYNNWYS GWYBODAETH EITHRIEDIG FEL Y'I DIFFINIWYD YM MHARAGRAFF 14 O RAN 4 O ATODLEN 12A I DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 FEL Y'I DIWYGIWYD GAN ORCHYMYN LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) (AMRYWIO) (CYMRU) 2007. OS BYDD Y BWRDD, AR ÔL CYNNAL PRAWF LLES Y CYHOEDD YN PENDERFYNU YN UNOL Â'R DDEDDF, I YSTYRIED Y MATER HYN YN BREIFAT, GORCHMYNNIR I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD YN YSTOD TRAFODAETH O'R FATH.**

**12. PENTRE AWEL** 405 - 418